# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Ionawr 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**3.10 SL(6)108 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2021**

(Tudalen 1)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-22 - Papur 16a - Ymateb Llywodraeth Cymru

**12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd**

14.55 - 15.05 (Tudalennau 2 - 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-22 - Papur 57 - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) - Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

LJC(6)-02-22 - Papur 58 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2021**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r asesiad effaith cryno a gyhoeddwyd ar gyfer y pàs COVID wedi ei ddiweddaru yng ngoleuni'r newidiadau i'r ddarpariaeth ynghylch imiwnedd naturiol. Caiff y fersiwn wedi ei diweddaru ei chyhoeddi cyn hir.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod natur anrhagweladwy imiwnedd naturiol yn golygu ei fod yn anaddas i'w ddefnyddio fel mesur ardystio o'i gymharu â brechu a phrofi. Mae cryfder yr ymateb imiwnedd amddiffynnol i COVID-19 yn amrywio'n fawr o un person i'r llall, ac er ei bod yn debygol iawn y caiff unigolyn ei ddiogelu rhag clefyd difrifol neu farwolaeth am gyfnod ar ôl gwella o'r haint cyntaf, bydd cyfnod para'r diogelwch hwn yn amrywio ac nid yw gallu'r unigolion hyn i barhau i drosglwyddo'r feirws wedi cael ei feintioli eto.

Nododd cofnodion cyfarfod 99 y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE 99) y canlynol:

- There remain many uncertainties about the biological parameters of Omicron including the combination of transmissibility and immune escape which give it a growth advantage over Delta in the UK. Evidence continues to suggest a significant degree of immune escape, and much higher levels of reinfections are being seen with Omicron (8% to 9%) than Delta (around 1%).

Atodir dolen i'r papur https://www.gov.uk/government/publications/sage-99-minutes-coronavirus-covid-19-response-16-december-2021/sage-99-minutes-coronavirus-covid-19-response-16-december-2021.

Bydd y darpariaethau ynghylch y pàs COVID sy'n ymwneud ag imiwnedd naturiol a thystiolaeth o frechu (gan gynnwys y diffiniad ffurfiol o wedi ei frechu'n llawn) yn parhau i gael eu hadolygu wrth i gyfraddau achosion newid ac wrth i'r rhaglen frechu barhau i gael ei gweithredu.

# Eitem 12

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**BIL YR HEDDLU, TROSEDDU, DEDFRYDU A'R LLYSOEDD**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mawrth 2021. Mae'r Bil yn gyfuniad o dri gwahanol Fil, mae ganddo gyfanswm o 179 o gymalau, mae'n 304 tudalen o hyd ac yn cynnwys 20 o Atodlenni. Ystyrir bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer 46 o'r cymalau yn y Bil. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 22 Mawrth ac wedyn ar 28 Mai, pan gafodd y Bil ei ailgyflwyno yn Senedd y DU ac yn dilyn Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021. Gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 5 Tachwedd yn dilyn gwelliant i gymal 17. Gosodwyd memorandwm atodol arall (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn ymateb i'r 91 o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 1 Rhagfyr i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, ac mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer 15 ohonynt.

3. Gosododd Llywodraeth y DU 19 o welliannau pellach ar 4 Ionawr 2022 i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, ac mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer un o'r rhain. Mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cymal hwn. Er hwylustod, mae hefyd yn nodi gweddilll y cymalau yn y Bil sydd, yn fy marn i, yn gofyn am gydsyniad y Senedd ac sydd wedi bod yn destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol. Mae hyn yn golygu bod yr holl gymalau sydd, yn fy marn i, yn gofyn am gydsyniad y Senedd wedi'u hamlinellu mewn un ddogfen.

4. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y memorandwm atodol hwn yn cyfeirio at y Bil fel y'i diwygiwyd ar 24 Tachwedd, sydd i'w weld yn: newbook.book (parliament.uk)

**Amcan(ion) Polisi**

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwneud y wlad yn fwy diogel drwy rymuso'r heddlu a'r llysoedd i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn troseddu ac arwain system gyfiawnder deg. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad penodol i: ddiogelu a grymuso'r heddlu drwy ymgorffori Cyfamod yr Heddlu mewn cyfraith; pasio'r Bil; a chyflwyno

gorchymyn llys newydd i dargedu’r sawl y mae’n hysbys eu bod yn cario cyllyll, gan ei gwneud yn haws i swyddogion stopio a chwilio'r rhai hynny a ddyfarnwyd yn euog o droseddau’n ymwneud â chyllyll.

6. O ran y llysoedd a dedfrydu, mae'r Bil yn cynnwys ymrwymiadau i: rymuso'r llysoedd i fynd i'r afael â throseddu; sicrhau system gyfiawnder deg drwy gyflwyno dedfrydau llymach i'r troseddwyr gwaethaf a rhoi terfyn ar ryddhau troseddwyr yn awtomatig o’r carchar hanner ffordd drwy eu dedfryd am droseddau difrifol. Mae hefyd yn ceisio cryfhau dedfrydau cymunedol, er enghraifft drwy gryfhau cyrffyw, gwneud i'r rhai hynny a euogfarnwyd ymgymryd â mwy o oriau o wneud iawn â’r gymuned, cael pobl i gefnu ar droseddu, a thorri’r cylch aildroseddu.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth;
   - i’r heddlu a gweithwyr gwasanaethau brys eraill wneud darpariaeth ynghylch cydweithio rhwng awdurdodau i atal a lleihau trais difrifol;
   - ar gyfer troseddau newydd ac addasu troseddau presennol;
   - ynghylch pwerau'r heddlu ac awdurdodau eraill at ddibenion atal, canfod ac ymchwilio i droseddau neu eu herlyn, neu at ddiben ymchwilio i faterion eraill;
   - ynghylch cynnal y drefn gyhoeddus;
   - ynghylch symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau; i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau gyrru;
   - ynghylch rhybuddion;
   - ynghylch mechnïaeth a rémand;
   - ynghylch dedfrydu, cadw, rhyddhau, rheoli ac adsefydlu troseddwyr;
   - ynghylch Academïau diogel ar gyfer rhai 16-19 oed; ac
   - mewn cysylltiad â gweithdrefnau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Strwythur y Memorandwm hwn**

9. Mae paragraffau 10-17 o'r Memorandwm hwn yn nodi’r newidiadau diweddar i'r Bil y mae angen cydsyniad iddynt, er mwyn sicrhau bod Aelodau’r Senedd yn cael darlun llawn o’r newidiadau perthnasol. Mae'r adran hon yn disgrifio'r newidiadau perthnasol, ond nid yw'n nodi safbwynt Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, o baragraffau 18 ymlaen nodir safbwynt Llywodraeth Cymru ar bob cymal perthnasol yn y Bil cyflawn fel y'i diwygiwyd – mae hyn yn cynnwys crynodeb o'n safbwynt ar hyn o bryd ers Memoranda blaenorol, yn ogystal â'n safbwynt ar y gwelliannau newydd a osodwyd ar 4 Ionawr. Mae hyn yn golygu y gall Aelodau ddefnyddio'r crynodeb o baragraff 18 ymlaen fel trosolwg cyflawn o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd.

**Newidiadau i'r Bil ar 4 Ionawr 2022 y mae angen cydsyniad iddynt**

10. **Cynyddu'r gosb am droseddau sy'n gysylltiedig â helwriaeth etc [i'w fewnosod ar ôl cymal 55]**

Y bwriad y tu ôl i'r cymal hwn yw cynyddu cosbau o dan Ddeddf Potsio Nos 1828 a Deddf Helwriaeth 1831 er mwyn atal ymhellach hela ysgyfarnogod, sy'n aml yn digwydd ar dir person arall heb ganiatâd yn wahanol i fathau eraill o hela sydd wedi'i drefnu. Mae'n diwygio Deddf Cyfreithiau Helwriaeth (Diwygio) 1960 ymhellach fel y gellir fforffedu cerbyd ni waeth faint o bobl sy'n cyflawni troseddau'r Deddfau Helwriaeth (ar hyn o bryd dim ond pan fo pump neu fwy o bobl yn cyflawni'r drosedd y mae modd gwneud hyn).

Mae'r gwelliant hwn o fewn cymhwysedd y Senedd ac felly mae angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar ei gyfer.

**Newidiadau i'r Bil fel y cyfeirir atynt yn y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr y mae angen cydsyniad iddynt**

11. **Gwelliannnau i Swyddogaethau'n ymwneud â Thrais Difrifol ('y Ddyletswydd Trais Difrifol')**

**Cymal 7 Dyletswyddau i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol a Chymal 8 Pwerau i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol**

Mae'r gwelliannau i gymalau 7 ac 8 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gyhoeddi'r strategaeth sy'n ofynnol gan gymal 7 ac yn sicrhau nad yw strategaeth o'r fath yn cynnwys deunydd a allai beryglu diogelwch unrhyw berson, a allai amharu ar atal neu ganfod trosedd neu ymchwilio i drosedd, neu beryglu diogelwch. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cyhoeddi neu ledaenu'r strategaeth.

**Cymal 9 Pŵer i awdurdodi cydweithio etc. gyda phersonau eraill**

Mae'r gwelliannau i gymal 9 yn sicrhau nad yw Rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 9 yn caniatáu datgelu gwybodaeth am gleifion na datgelu gwybodaeth bersonol gan awdurdod iechyd neu ofal cymdeithasol.

**Cymal 12 Atal a lleihau trais difrifol**

Mae'r gwelliannau i gymal 12 yn ehangu'r diffiniad o drais difrifol i gynnwys cam-drin domestig fel y'i diffinnir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 a throseddau rhywiol fel y'u diffinnir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003.

**Cymal 15 Datgelu gwybodaeth**

Mae'r gwelliannau i gymal 15 yn sicrhau na fydd unrhyw ddatgeliad o wybodaeth a awdurdodir gan gymal 15 yn awdurdodi datgelu gwybodaeth am gleifion na datgelu gwybodaeth bersonol gan awdurdod iechyd neu ofal cymdeithasol.

**Cymal 16 Cyflenwi gwybodaeth i gyrff plismona lleol**

Mae'r gwelliannau i gymal 16 yn cyfyngu ar yr wybodaeth y gall corff plismona lleol ofyn amdani, o dan y cymal, i wybodaeth a gedwir gan y person y gwneir y cais iddo. Mae’r gwelliannau hefyd yn sicrhau na ellir datgelu gwybodaeth am gleifion na datgelu gwybodaeth bersonol gan awdurdod iechyd neu ofal cymdeithasol.

**Cymal 18 Canllawiau**

Mae'r gwelliant i gymal 18 yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan y ddyletswydd trais difrifol gael eu gosod gerbron Senedd y DU.

**Cymal 19 Gwelliannau i Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

Mae’r gwelliannau i gymal 19 yn ehangu'r diffiniad o drais difrifol i gynnwys cam-drin domestig fel y'i diffinnir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 a throseddau rhywiol fel y'u diffinnir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 ac yn gwneud addasiadau dilynol i Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

**Cymal 22 Mynegai o ymadroddion diffiniedig**

Mae’r gwelliannau i gymal 22 yn ychwanegu "awdurdod iechyd neu ofal cymdeithasol" a "gwybodaeth i gleifion" at y mynegai o ymadroddion diffiniedig.

Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r holl gymalau uchod, yn ogystal â  chymalau10, 11, 13, 14, 17, 20 a 21, ar 28 Mai am eu bod yn effeithio ar faterion datganoledig ac Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Gosodais femorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 5 Tachwedd mewn perthynas â chymalau 9, 17 a 18.

Mae’r cymalau, a ddiwygiwyd fel y manylir uchod, hefyd yn effeithio ar faterion datganoledig ac Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Felly, gosodwyd y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn perthynas â'r cymalau fel y'u diwygiwyd.

12. **Cymal 31 Canllawiau (Adolygiad o Laddiad ag Arfau Tramgwyddus), a Chymal 65 Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr ar dir etc (Gwersylloedd Anawdurdodedig)**

Mae’r gwelliannau i gymalau 31 a 65 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y cymalau hynny gael eu gosod gerbron Senedd y DU.

Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai am eu bod yn effeithio ar faterion datganoledig. Mae'r diwygiadau i'r cymalau yn ganlyniadol ac felly'n effeithio ar faterion datganoledig. Felly, gosodwyd y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn perthynas â'r cymalau hyn fel y'u diwygiwyd.

13. **Cymal 36 Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwilio i droseddau etc), a Chymal 42 Rheoliadau ynghylch echdynnu gwybodaeth electronig**

Mae’r gwelliannau i gymalau 36, 40 a 42 yn gwneud darpariaeth yn ymwneud ag echdynnu gwybodaeth gyfrinachol wrth echdynnu gwybodaeth. Mae’r gwelliannau hyn yn disodli'r ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 42 i wneud Rheoliadau ynghylch darpariaethau o'r fath.

Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai gan eu bod yn effeithio ar faterion datganoledig ac Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Mae'r effaith ar faterion datganoledig yn aros yr un fath o ganlyniad i'r gwelliannau hyn. Felly, gosodwyd y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn perthynas â'r cymalau hyn fel y'u diwygiwyd.

14. **Cymal 56 Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus), Cymal 57 Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus a Chymal 62 Gosod amodau ar brotestiadau un person**

Mae'r gwelliannau i gymalau 56, 57 a 62 yn rhoi'r diffiniad o darfu difrifol ar wyneb y Bil, yn hytrach na rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ddiffinio mewn Rheoliadau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw pŵer i ddiwygio'r diffiniad mewn Rheoliadau. Nid yw'r gwelliannau hyn yn gwneud newid i sylwedd y ddarpariaeth: y cyfan a wneir yw symud y gofyniad i ddiffinio tarfu difrifol o’r Rheoliadau i wyneb y Bil ei hun.

Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai gan eu bod yn effeithio ar faterion datganoledig. Mae'r effaith ar faterion datganoledig yn aros yr un fath o ganlyniad i'r gwelliannau hyn. Felly, gosodwyd y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn perthynas â'r cymalau hyn fel y'u diwygiwyd

15. **Cymal 61 Achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu’n ddi-hid**

Mae’r gwelliannau i gymal 61 yn egluro'r drosedd o niwsans cyhoeddus drwy ei gwneud yn glir mai dim ond pan achosir niwed difrifol i'r cyhoedd neu gyfran o'r cyhoedd y cyflawnir niwsans cyhoeddus.

Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai gan ei fod yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig o ran diogelu'r amgylchedd ac Awdurdodau Lleol. Mae'r effaith ar faterion datganoledig yn aros yr un fath o ganlyniad i'r gwelliannau hyn. Felly, gosodwyd y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn perthynas â'r cymal hwn fel y'i diwygiwyd.

**Gwelliannau eraill**

16. O ystyried cymhlethdod y Bil a nifer y gwelliannau a osodwyd gan Lywodraeth y DU, hepgorwyd y gwelliant canlynol o Femoranda atodol blaenorol.

17. **Cymal 38 Gofynion ar gyfer darparu'n wirfoddol a chytuno**

    Mae'r cymal newydd hwn yn nodi pryd yr ystyrir bod person wedi darparu dyfais electronig yn wirfoddol at ddibenion cymalau 36 a 37. Mae'r cymal newydd hwn yn atodol i gymalau 36 a 37 y gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â hwy ar 28 Mai.

    Felly, mae angen memorandwm hefyd ar gyfer cymal 38.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd – crynodeb**

18. Cynhwyswyd tabl tebyg i'r un isod yn y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr. Oherwydd y pwysau amser ar gyfer gosod y memorandwm atodol hwnnw a chymhlethdod a maint y gwelliannau a osodwyd yr oedd gofyn eu dadansoddi, hepgorwyd rhai cymalau drwy amryfusedd. Mae'r set lawn o gymalau y barnwyd eu bod o fewn cymhwysedd y Senedd bellach wedi'u cynnwys yn y tablau ym mharagraffau 19 ac 20.

19. <u>Yr holl gymalau yn y Bil yr wyf yn argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt:</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymal 1 | Cymal 17 | Cymal 29 | Cymal 43 |
| Cymal 2 | Cymal 18 | Cymal 30 | Cynyddu'r gosb am am droseddau sy'n gysylltiedig â helwriaeth etc [i'w fewnosod ar ôl cymal 55] |
| Cymal 7 | Cymal 19 | Cymal 31 | Cymal 61 |
| Cymal 8 | Cymal 20 | Cymal 32 | |
| Cymal 9 | Cymal 21 | Cymal 33 | |
| Cymal 10 | Cymal 22 | Cymal 34 | |
| Cymal 11 | Cymal 23 | Cymal 35 | |
| Cymal 12 | Cymal 24 | Cymal 36 | |
| Cymal 13 | Cymal 25 | Cymal 37 | |
| Cymal 14 | Cymal 26 | Cymal 38 | |
| Cymal 15 | Cymal 27 | Cymal 41 | |
| Cymal 16 | Cymal 28 | Cymal 42 | |

20. Yr holl gymalau yn y Bil yr wyf yn argymell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Cymal 47 | Cymal 62 | Cymal 65 |
| Cymal 56 | Cymal 63 | |
| Cymal 57 | Cymal 64 | |

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd – cymalau yr wyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt** (er gwybodaeth)

21. **Cymal 1 Adroddiad Cyfamod yr Heddlu**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn. Nid yw cymal 1 wedi'i ddiwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy, na chan y gwelliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid cyflwyno Cyfamod yr Heddlu. Mae cymal 1 yn cyflwyno gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyfamod yr Heddlu a chyflwyno hwn i'r Senedd. Mae'r adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y cyfamod yn debygol o ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, megis gwasanaethau iechyd. Gosodwyd memorandwm mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymal 1.

22. **Cymal 2 Cynyddu'r gosb am Ymosod ar Weithiwr Brys**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn. Nid yw cymal 2 wedi'i ddiwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy, na chan y gwelliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr.

Mae ymosodiadau ar weithwyr brys yn fater gresynus. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymal 2 sy'n diwygio adran 1 o Ddeddf Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) 2018, gan gynyddu'r gosb o 12 mis i 2 flynedd. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymal 2.

23. **Cymalau 7-22 – Dyletswydd Trais Difrifol**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r pecyn o gymalau a elwir yn gymalau dyletswydd trais difrifol, sef cymalau 7-22. Nid yw'r cymalau hyn wedi'u diwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau o fewn ardal llywodraeth leol gydweithio â'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r gwelliant i ehangu'r diffiniad o drais difrifol i gynnwys cam-drin domestig yn golygu y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, asiantaethau cyfiawnder troseddol penodedig ac awdurdodau iechyd gynnwys cam-drin domestig a throseddau rhywiol yn eu strategaethau trais difrifol o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol.

Yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar 28 Mai, argymhellais roi cydsyniad i gymalau 7, 8, 10-16 a19-22. At hynny, yn yr un memorandwm, argymhellais y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i gymalau 9, 17 a 18 oherwydd y diffyg amddiffyniad a roddir i Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, sicrhawyd gwelliant i gymal 17. Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r gwelliant hwnnw ar 5 Tachwedd 2021. Effaith y gwelliant hwnnw oedd newid fy marn, ac felly yn y memorandwm atodol hwnnw, argymhellais y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i gymalau 9, 17 a 18 ar y sail bod y gwelliant i gymal 17 yn diogelu natur ddatganoledig y darpariaethau hynny'n ddigonol.

Mae cymalau 7, 8, 9, 12, 15, 16, 18, 19 a 22 wedi’u diwygio fel y nodir ym mharagraff 11 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymalau hynny fel y'u diwygiwyd ar 20 Rhagfyr, lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymalau hynny fel y'u diwygiwyd.

Rwy’n parhau i argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r pecyn o gymalau Dyletswydd Trais Difrifol, sef cymalau 7-22.

24. **Cymalau 23-35 Adolygiadau o Laddiadau ag Arfau Tramgwyddus**

Yma rwy’n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r pecyn o gymalau a elwir yn Adolygiad o Laddiadau ag Arfau Tramgwyddus, sef cymalau 23-35. Nid yw'r cymalau hyn wedi'u diwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Bydd yr adolygiadau newydd o Laddiadau ag Arfau Tramgwyddus yn dwyn ynghyd bartneriaid diogelu lleol i gynnal adolygiad ffurfiol o'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â marwolaeth a'r defnydd o arfau tramgwyddus. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgu gwersi pwysig ac i fabwysiadu dull cydweithredol o atal marwolaethau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag arfau tramgwyddus, megis cyllyll a gynnau. Ar y sail hon, argymhellais yn y memorandwm a osodwyd ar 28 Mai y dylid cydsynio i gymalau 23-35.

Mae cymal 31 wedi’i ddiwygio fel y nodir ym mharagraff 12 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymal

hwn ar 20 Rhagfyr, lle argymhellais fod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal hwn fel y'i diwygiwyd.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r pecyn o gymalau sy'n ymwneud ag Adolygiadau o Laddiadau ag Arfau Tramgwyddus (cymalau 23-35).

25. **Cymal 36 Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwilio i droseddau etc, Cymal 37 Cymhwyso adran 36 i blant ac oedolion heb alluedd, Cymal 38 Gofynion ar gyfer darparu'n wirfoddol a chytuno, Cymal 41 Cod ymarfer ynghylch echdynnu gwybodaeth, Cymal 42 Rheoliadau ynghylch echdynnu gwybodaeth gyfrinachol, a Chymal 43 Personau Awdurdodedig**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymalau hyn. Nid yw'r cymalau hyn wedi'u diwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Nod y darpariaethau ynghylch echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig yw diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed - mae hyn yn cyd-fynd â nodau a darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r cymalau hyn yn effeithio ar faterion datganoledig gan fod personau awdurdodedig at ddibenion y cymalau hyn yn cynnwys Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Felly, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 28 Mai mewn perthynas â chymalau 36, 37, 41-43 lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal hwn.

Rwy'n parhau i argymell y dylid rhoi cydsyniad i gymalau 37, 41 a 43.

Mae cymalau 36 a 42 wedi'u diwygio fel y nodir ym mharagraff 13 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 20 Rhagfyr lle roeddwn yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymalau 36 a 42. Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymalau 36 a 42.

Manylir ar y cymal 38 newydd sydd wedi'i fewnosod ym mharagraff 17. Rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymal 38.

26. **Cynyddu'r gosb am droseddau'n ymwneud a helwriaeth etc [i'w fewnosod ar ôl cymal 55]**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn. Fe'i mewnosodwyd gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr.

Manylir ar gynnwys y cymal sy'n cynyddu'r gosb am droseddau sy'n ymwneud â helwriaeth etc, sydd i'w fewnosod ar ôl cymal 55, ym mharagraff 10.

Mae'r ffordd yr ydym yn trin ein hanifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Yn ogystal â bod yn fater o les anifeiliaid, gall troseddu er mwyn hwyluso hela ysgyfarnogod gael effaith ehangach hefyd. Gall hyn gynnwys fandaleiddio eiddo, ffermwyr a thirfeddianwyr yn colli incwm, lladrata, bygythiadau a phroblemau traffig ar y ffyrdd gan gynnwys gyrru cerbydau heb drwydded ac yswiriant. Er mai'n anaml y mae hela ysgyfarnogod yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai llawer o'r troseddwyr sy'n cymryd rhan mewn hela ysgyfarnogod yn Lloegr yn symud eu digwyddiadau i Gymru pe bai deddfwriaeth i Loegr yn unig yn cael ei chyflwyno.

Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal hwn.

27. **Cymal 61 Achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn. Nid yw'r cymal hwn wedi'i ddiwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Er bod trefn gyhoeddus yn fater a gadwyd yn ôl, mae'r elfennau sŵn yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru. Rydym yn cefnogi'r cymal ynghylch diogelu trigolion rhag cynnydd mewn llygredd sŵn. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal.

Mae cymal 61 wedi'i ddiwygio fel y nodir ym mharagraff 15 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymal hwn ar 20 Rhagfyr, lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymal 61.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd – cymalau yr wyf yn argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad iddynt** (er gwybodaeth)

28. **Cymal 47 – Difrod troseddol i gofebau: dull treial**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymal hwn. Nid yw cymal 47 wedi'i ddiwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy, na chan y gwelliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr.

Er bod dedfrydu a'r llysoedd yn fater a gadwyd yn ôl, mae henebion, cofebau a diwylliant wedi'u datganoli. Rydym o'r farn bod creu'r posibilrwydd o roi unigolyn o flaen ei well yn Llys y Goron a'i garcharu am hyd at 10 mlynedd (neu am oes, os oedd gan y diffynnydd fwriad neu os oedd yn fyrbwyll o ran yr effaith ar fywyd) am ddifrod troseddol gwerth llai na £5000 yn anghymesur. Mae'r cymal hwn yn diwygio'r weithdrefn ar

gyfer ymdrin â difrod troseddol i gofebau, sydd, yn ein barn ni, o fewn cymhwysedd y Senedd ac felly rwy'n argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r cymal hwn. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai lle'r argymhellais y dylai'r Senedd wrthod cydsynio i'r cymal.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r cymal hwn.

29. **Cymal 56 Gosod amodau ar orymdeithiau gyhoeddus, Cymal 57 Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus, a Chymal 62 Gosod amodau ar brotestiadau un person**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymalau hyn. Nid yw cymalau 56, 57 a 62 wedi'u diwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Er bod trefn gyhoeddus yn fater a gadwyd yn ôl, mae'r elfennau sŵn yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi'r cymal o ran amddiffyn trigolion rhag mwy o lygredd sŵn, ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r heddlu mewn perthynas â lefelau sŵn, mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol dros leihau sŵn ac mae'n gyfrifol am gyfarwyddo awdurdodau lleol ar y mater hwn. Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi'i diffinio'n glir ac felly mae'n anodd asesu ei goblygiadau o ran cyfrifoldebau Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai lle'r argymhellais y dylai'r Senedd wrthod cydsynio iddynt. Mae'r cymalau hyn wedi'u diwygio fel y nodir ym mharagraff 14 a gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 20 Rhagfyr lle, unwaith eto, yr argymhellais y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad iddynt

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei cydsyniad i gymalau 56, 57 a 62.

30. **Cymal 63 Trosedd sy'n ymwneud â byw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu â cherbyd, Cymal 64 Diwygiadau i'r pwerau presennol, a Cymal 64 Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmasu ar dir etc**

Yma rwy'n nodi fy safbwynt mewn perthynas â'r cymalau hyn. Nid yw cymalau 63-65 wedi'u diwygio gan y gwelliannau a osodwyd ar 4 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 4) yn ymwneud â hwy.

Nid yw ymagwedd Llywodraeth Cymru o ran rheoli gwersylloedd diawdurdod wedi newid. Rydym yn canolbwyntio ar ymgysylltu â

chymunedau ac ar fuddsoddi ar gyfer darpariaeth ddigonol o safleoedd awdurdodedig a galluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion llety (preswyl a chludiant) cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae’r maes gwaith hwn yn cael blaenoriaeth unwaith yn rhagor yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, sy’n cynnwys nod penodol o fynd i’r afael yn well ag anghenion llety'r cymunedau hyn. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai, lle'r oeddwn yn argymell bod y Senedd yn gwrthod cydsynio iddynt.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i gymalau 63 a 64.

Mae cymal 65 wedi’i ddiwygio fel y nodir ym mharagraff 12 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymal hwn ar 20 Rhagfyr lle, unwaith eto, yr argymhellais y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i'r cymal hwn.

Rwy'n parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i gymal 65.

**Goblygiadau ariannol**

31. Mae’n bosibl y bydd goblygiadau ariannol ond ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

**Casgliad**

32. Ceir darpariaethau yn y Bil hwn yr ydym yn eu croesawu ac sy’n cyd-fynd â’n polisïau. O ran darpariaethau o'r fath, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraff 19 am y rhesymau a nodir ymhellach ym mharagraffau 21 i 27.

33. Fodd bynnag, ceir darpariaethau yn y Bil hwn nad ydynt yn cyd-fynd â’n polisïau. O ran darpariaethau o'r fath, rwy’n argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraff 20, am y rhesymau a nodir ymhellach ym mharagraffau 28 i 30.

**Jane Hutt AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**[6] Ionawr 2022**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon